

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020



Matrics Themâu Trawsbynciol

Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014 - 2020

Hydref 2018

Fersiwn: 5



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Echel Blaenoriaeth 1 : Arloesi Trawsffiniol.....	4
Echel Blaenoriaeth 2 : Gallu Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol i Addasu i Newid yn yr Hinsawdd.....	8
Echel Blaenoriaeth: 3 Treftadaeth a Chyfoeth Naturiol a Diwylliannol	13
Cod Eco.....	24

Cyflwyniad

Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014 – 2020

Cynigir bod Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020 yn cyfrannu at strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer twf craff, cynaliadwy a chynhwysol ac at gyflawni cydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol. Nod y rhaglen yw rhoi fframwaith i sefydliadau yn yr ardal drawsffiniol i fynd ati i gydweithredu i ymdrin â heriau a rhannu blaenoriaethau sydd o fudd i ddwy ochr Môr Iwerddon. Bydd felly'n cyfrannu ac yn ychwanegu gwerth at flaenoriaethau datblygu economaidd a chynaliadwy Iwerddon a Chymru.

Mae'r bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU yn rhoi darlun cyffredinol o'r dull o hybu'r egwyddorion llorweddol yn yr holl gronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru, sy'n cynnwys y themâu trawsbynciol Datblygu Cynaliadwy a Chyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd. Yng Nghymru mae'r themâu trawsbynciol Cyfle Cyfartal a Prif Ffrydio Rhywedd yn cynnwys hybu'r Gymraeg a chefnogi siaradwyr yr iaith. I gydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd teg i gyfranogwyr economaidd ym mhob rhan o gymdeithas mae Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru wedi plethu twf cynhwysol drwy bob un o'r tair echel flaenoriaeth.

Mae'r canllawiau canlynol yn nodi manylion y camau y dylai'r bobl hynny sy'n gwneud cais am gyllid, a phobl sy'n defnyddio ceisiadau am gyllid, eu hystyried, i sicrhau bod y themâu trawsbynciol yn cael eu cefnogi trwy'r rhaglen. Mae'r adran ganlynol yn cynnwys camau sy'n cefnogi'r themâu trawsbynciol sy'n benodol i'r flaenoriaeth honno, ac yna'n cynnwys adran sy'n nodi camau mwy cyffredinol y gellir eu cymhwyso i amrywiaeth o weithgarwch fel sy'n briodol.

Egwyddorion Llorweddol – Themâu Trawsbynciol Datblygu Cynaliadwy – Cyfle Cyfartal a Prif Ffrydio Rhywedd

Wrth gynllunio gweithgaredd i gyflawni'r canlyniad dymunol, dylai'r holl weithrediadau gyfuno themâu trawsbynciol yn eu gweithgareddau. Nod y canllawiau hyn yw cynorthwyo'r 'gweithrediadau' hynny sy'n datblygu a'r 'gweithrediadau' hynny sy'n asesu i ddeall sut y gellir cynnwys y themâu trawsbynciol mewn gweithgareddau, fel cyfres o gamau penodol i flaenoriaethau'r rhaglen a chamau cyffredinol y gellir eu cyflawni mewn amrywiaeth o weithgareddau.

Echel Blaenoriaeth 1 : Arloesi Trawsffiniol

Amcan Thematig: Cryfhau Ymchwil, Datblygiad ac Arloesedd Technoleg

BLAENORIAETH FUDDSODDI: hybu buddsoddiad busnes mewn arloesi ac ymchwil, a datblygu cysylltiadau a synergedd rhwng mentrau, canolfannau ymchwil a datblygu ac addysg uwch wrth ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau penodol, trosglwyddo technoleg, arloesi cymdeithasol, arloesi eco, diwydiannau diwylliannol a chreadigol, rhaglenni gwasanaethau cyhoeddus, clystyrau rhwydweithio i ysgogi galw ac arloesi agored trwy arbenigo craff a chefnogi ymchwil dechnolegol ac ymchwil gymhwysol, llinellau treialu, camau cynnar ar gyfer dilysu cynhyrchion, datblygiadau mewn capasiti gweithgynhyrchu a chynhyrchu am y tro cyntaf, yn benodol mewn technolegau Galluogi Allweddol ac ymlediad ar gyfer technolegau at ddiben cyffredinol.

AMCAN BENODOL 1: Cynyddu dwyster y gwaith trosglwyddo gwybodaeth cydweithredol gan gynnwys sefydliadau ymchwil a busnesau bach a chanolig yn unol â blaenoriaeth a rennir yr arbenigo craff.

Mae'r matrices canlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y gall 'gweithrediadau' eu hystyried, gan gynnwys yn eu Strategaeth Datblygu Lleol sy'n ymdrin â'r themâu trawsbynciol

Camau Penodol	
<p>Camau sy'n cefnogi Datblygu Cynaliadwy:</p> <p>Strategaeth Datblygu Cynaliadwy¹</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu, hyrwyddo neu wella strategaeth Datblygu Cynaliadwy. Bydd hyn yn gweithredu polisi amgylcheddol a bydd yn cadarnhau bod y busnes yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol. Bydd gweithredu strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn annog arbedion economaidd, dulliau rheoli gwell a buddion amgylcheddol. • I ategu'r strategaeth datblygu cynaliadwy dylai'r buddoliwr ddatblygu Cod Eco i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd. 	<p>Camau sy'n gallu cefnogi Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:</p> <p>Denu menywod i feysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) ac Ymchwil ac Arloesedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi bod cydraddoldeb rhwng y rhywiau ym maes ymchwil ac arloesedd yn elfen allweddol o Horizon 2020 ac mae wedi ei brif ffrydio fel mater trawsbynciol ym mhob rhan o'r rhaglen.

¹ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

<ul style="list-style-type: none"> • Caiff y Cod Eco ei arddangos fel poster, ac fel arfer mae wedi ei leoli mewn man canolog fel ffreutur y staff neu yn y dderbynfa. Mae'r poster yn rhoi awgrymiadau ymarferol i atgoffa'r staff i arbed ynni, peidio â gwastraffu dŵr a'u hannog i wella'r dulliau o reoli gwastraff. • Darperir templed enghreifftiol yn atodiad y canllawiau hyn ac mae'n dangos amrywiaeth o gamau y dylai'r cod eco eu hybu. Dylai'r camau gael eu llunio gan y sefydliad a byddai'n benodol ar gyfer gweithgareddau 'gweithredol'. Nodir rhai awgrymiadau cyffredinol ar y templed. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai gweithgarwch yn y maes hwn elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd i gefnogi menywod i gymryd rhan a phan fo hynny'n bosibl, mynd ati i gefnogi menywod sy'n esiampl dda i eraill sy'n gweithio yn y gweithrediadau. • Dylai cydbwysedd rhwng y rhywiau fod yn ystyriaeth allweddol hefyd wrth sefydlu timau ymchwil, byrddau a phwyllgorau a dylai Gweithrediadau ystyried cael rhaniad 40% / 60% o leiaf ar bob un² • Dylai integreiddio dadansoddiad rhywedd/rhyw mewn cynnwys Ymchwil ac Arloesedd ddigwydd ochr yn ochr ag integreiddio dadansoddiad mwy sefydledig. • Datblygu, hybu neu wella strategaeth Gyfle Cyfartal. Bydd hyn yn gweithredu polisi Cydraddoldeb a bydd yn cadarnhau bod y busnes yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb. Bydd gweithredu strategaeth cydraddoldeb yn annog datblygiad amrywiaeth a'r gallu i gadw staff yn y gweithlu, gwella dulliau rheoli a buddion cysylltiedig eraill i'r busnes. • Hybu perchnogaeth o Gyfle Cyfartal a Priff Ffrydio Rhywedd trwy greu swyddogaeth hyrwyddwr. Bydd yr unigolion a enwebir yn cymryd y cyfrifoldeb am ddatblygu camau a weithredir mewn gweithgareddau busnes, yn annog pobl i gefnogi'r camau ac yn hybu cydweithwyr a buddiolwyr allanol i'w perchnogi.
--	--

² Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd (2011) 'Structural Change in Research Institutions Enhancing excellence, gender equality and efficiency in research and innovation http://ec.europa.eu/research/science-society/document_library/pdf_06/structural-changes-final-report_en.pdf

	<p>Ymgynghori / Ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none">• Datblygu dulliau effeithiol o weithio gyda grwpiau o ddefnyddwyr perthnasol i sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu cynllunio gan roi ystyriaeth i'r defnyddiwr yn y pen draw ac yn helpu i elwa i'r eithaf ar y potensial i werthu'r cynnyrch ee grwpiau mynediad ar gyfer pob anabl lleol
--	--

Echel Blaenoriaeth 2 : Gallu Môr Iwerddon a Chymunedau Arfordirol i Addasu i Newid yn yr Hinsawdd

Amcan Thematig: Hybu'r gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd, atal a rheoli risg drwy:

BLAENORIAETH FUDDSODDI: Cefnogi buddsoddiad i addasu i newid yn yr hinsawdd gan gynnwys dulliau sy'n seiliedig ar eco-systemau.

AMCAN PENODOL 2: Cynyddu capasiti a'r wybodaeth am addasu i Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer cymunedau arfordirol Môr Iwerddon

Mae'r matrices canlynol yn rhoi enghreifftiau o gamau y gall 'gweithrediadau' eu hystyried gan gynnwys yn eu Strategaeth Datblygu Lleol sy'n ymdrin â'r Themâu Trawsbynciol

Camau Penodol

Camau sy'n cefnogi Datblygu Cynaliadwy

O dan y flaenoriaeth hon mae'n bwysig ystyried newid i economi carbon isel. Mae system ynni fwy cynaliadwy yn amgylcheddol yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd economaidd Cymru. Wrth i danwydd ffosil brinhau ac effaith negyddol eu hyllogi ddod yn fwy amlwg, nid yw parhau i ddibynnu ar danwydd o'r fath yn gallu bod yn opsiwn.

Camau Arbed Ynni:

- **Codi ymwybyddiaeth a hybu'r ddealltwriaeth o faterion ynni sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd:** Gall 'Gweithrediadau' sy'n anelu i godi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd a materion ynni cysylltiedig gyfrannu at newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Mae camau carbon isel, arbed ynni ac ynni adnewyddadwy yn fwy tebygol o gael eu mabwysiad unwaith y deallir y cefndir gwyddonol a'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol.
- **Datblygu a hybu camau arbed ynni a defnyddio ynni'n effeithlon:** Gellir cyflawni hyn trwy wneud ymchwil i ddulliau neu dechnolegau gwell ar gyfer arbed ynni a defnyddio ynni yn effeithlon; hybu dulliau a thechnolegau gwell ar gyfer arbed ynni a defnyddio ynni yn effeithlon. Gall camau o'r fath gynnwys deunyddiau insiwleiddio gwell, goleuadau sy'n arbed ynni a thechnolegau gwresogi fel switsys sy'n troi goleuadau i ffwrdd ar ôl cyfnod penodol o amser ac unedau gwres a phŵer sydd wedi eu cyfuno.

Nid oes unrhyw gamau penodol ar gyfer Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth hon, ond gallai'r camau cyffredinol yn yr adran nesaf fod yn gymwys.

- **Mae arbed dŵr hefyd yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau.** Dylai camau arbed dŵr fel tapiau sy'n atal y llif dŵr ar ôl cyfnod penodol o amser ac offer storio dŵr gael eu gosod pan fo hynny'n briodol. Dylid arbed dŵr hefyd trwy gynlluniau storio ac ailgylchu dŵr. Gall Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs) gyfrannu at Ddatblygu Cynaliadwy a gwella dulliau dylunio trefol trwy gydbwysu'r gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau. Mae dulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried swm dŵr (llyfoggydd), ansawdd dŵr (llygredd) a materion amwynder yn ystyriaethau pwysig mewn gweithrediadau adeiladu.

- **Ynni'r Môr (Llanw* a Thonnau*)**

Wrth ystyried buddsoddiadau Ynni'r Môr dylid cyfeirio at wefan Morol benodol Llywodraeth Cymru.

Mae'n hanfodol bod 'gweithrediadau' yn ystyried y canlynol wrth ddechrau adeiladu yn agos i'r lan neu ar y môr yng Nghymru:

- Cael Trwydded Forol;
- Cael Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS);
- Cyfeirio at wybodaeth am reoliadau amrywiol ynglŷn ag echdynnu mwynau drwy garthu morol;
- Ymwybyddiaeth o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010;
- Rheoliadau Cwblhau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007;
- Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD);

- Ymwybyddiaeth o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Darperir rhagor o wybodaeth ar y wefan benodedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan yr enw Trwyddedu Morol. Gallwch ddefnyddio'r hyperddolen isod³.

Cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach / raddfa gymunedol.

Disgwylir i gynlluniau gyd-fynd â gweithgarwch Rhaglen Ynni Cymru⁴.

- **Datblygu a hybu mentrau Carbon isel:** Pan fydd pob cam posibl i arbed ynni a defnyddio ynni'n effeithlon wedi eu cynnwys; gall mentrau Carbon isel gyfrannu'n sylweddol at y galw am ynni. Mae'r mentrau Carbon isel i'w hystyried ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach / raddfa gymunedol yn cynnwys:
 - Gwynt (ar y môr ac ar y tir);
 - Haul (ffoto-voltaig*);
 - Ynni Tonnau a Llanw.

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â ffynonellau ynni adnewyddawy yn Nodyn Cyngor Technegol 8⁵ ac ar wefan Ynni benodol Llywodraeth Cymru⁶

³ Trwyddedu Morol – Cyfoeth Naturiol Cymru: <http://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/marine-licensing/?lang=cy>

⁴ Adran Ynni Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/?skip=1&lang=cy>

⁵ Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy : <http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan8/?skip=1&lang=cy>

⁶ Adran Ynni Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan8/?skip=1&lang=cy>

- **Datblygu a hybu technolegau a phrosesau arloesol i leihau achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.**

Gallai atebion arloesol i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd⁷ fod ar ffurf strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol gwell, technolegau newydd a allai gynyddu camau arbed ynni*, technolegau a allai leihau allyriadau neu dechnolegau a allai ddarparu ffynonellau newydd neu well o ynni adnewyddadwy glân*.

Camau Arbed Ynni:

- **Codi ymwybyddiaeth a hybu'r ddealltwriaeth o faterion sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd: Gall 'Gweithrediadau' sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd a materion ynni cysylltiedig gyfrannu at newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Mae camau carbon isel, arbed ynni ac ynni adnewyddadwy yn fwy tebygol o gael eu mabwysiad unwaith y deallir y cefndir gwyddonol a'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol**

⁷ Llywodraeth Cymru : Newid yn yr Hinsawdd <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/?skip=1&lang=cy>

Echel Blaenoriaeth: 3 Treftadaeth a Chyfoeth Naturiol a Diwylliannol

Amcan thematig: gwarchod yr amgylchedd a hybu defnydd effeithiol o adnoddau

BLAENORIAETH FUDDSODDI: Gwarchod, diogelu, hybu a datblygu treftadaeth naturiol a diwylliannol.

AMCAN BENODOL 3: Gwireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol yn gynaliadwy wrth gynyddu nifer yr ymwelwyr â chymunedau arfordirol ym maes y rhaglen.

Camau Penodol

Camau sy'n cefnogi Datblygu Cynaliadwy	Camau sy'n cefnogi Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd
Cadwraeth y tir:	Cynyddu nifer yr ymwelwyr
<p>Dim datblygiad amhriodol mewn ardaloedd gwarchodedig.</p> <ul style="list-style-type: none">Rhaid i unrhyw 'weithrediad' â'r potensial i niweidio safle sy'n bwysig yn rhyngwladol (fel y diffinir gan Reoliadau Cynefinoedd y DU 1994) gynnal 'Asesiad Priodol'. Dylid cyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur gan gyfeirio'n benodol at Atodiad 6 sy'n disgrifio'r broses o asesu yn fwy manwl. Mae hyn ar wahân i unrhyw Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol a gynhelir.	<ul style="list-style-type: none">Datblygu strategaethau marchnata sy'n gwella niferoedd y grwpiau a dangynrychiolir o ran ymweld â safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd a digwyddiadau celfyddydol (Grwpiau o Bobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is)

Ni chefnogir ‘Gweithrediadau’ y dangosir eu bod yn niweidio safle a warchodir yn rhyngwladol neu’n genedlaethol.

- Mae ‘Gweithrediadau’ sydd â’r potensial i niweidio unrhyw safle sydd wedi’i ddyodi gan gynnwys Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, safleoedd Ramsar, safleoedd Natura 2000, gwarchodfeydd natur cenedlaethol a morol ac ardaloedd gwarchodedig pwysig lleol a ddynodwyd gan Ymddiriedolaethau Natur Lleol yn destun gwerthusiad cadarn gan Dîm Rhaglen Iwerddon Cymru. Cânt hefyd eu cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer eu hasesu.

Potensial i gynnwys seilwaith gwyrdd neu las ar raddfa fach yng nghynllun y ‘gweithrediad’.

- Gall seilwaith gwyrdd neu seilwaith glas fod ar wahanol ffurfiau, er enghraifft: gall seilwaith gwyrdd gynnwys toeon a waliau gwyrdd, gerddi, parciau, tirweddau cynhyrchiol, coridorau gwyrdd, dolydd blodau gwyllt trefol ar raddfa fach, toeon a waliau gwyrdd a gwestai gwenyn/pryfed i dir parc graddfa fwy wedi ei gynllunio, ardaloedd sydd wedi eu neilltuo ar gyfer blodau gwyllt a chynlluniau “tyfu eich bwyd eich hun” cymunedol. Gallai seilwaith glas gynnwys biobantiau wedi eu cynllunio, palmant mân-dyllog a gerddi glaw yn ogystal â systemau draenio trefol cynaliadwy.

Cadw a hybu bioamrywiaeth yn y safle hyd ag y mae

Gwella’r profiad i ymwelwyr

- Dylai gwella’r hyn a gynigir i dwristiaid anabl fod yn ystyriaeth allweddol, gydag ysgogiadau pwrpasol fel parcio ‘bathodyn glas’, systemau trefnu mwy hyblyg ar gyfer pobl anabl sy’n dymuno prynu ar y funud olaf ac ymrwymiad i ddatganiadau hygyrchedd gan ddarparwyr llety.

Gwella sgiliau’r gweithlu a chadw staff

- Er gwaethaf camau a gymerwyd yng nghyd-destun deddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth, gan gynnwys yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, mae’r sector twristiaeth a lletygarwch wedi ei nodi yn un lle y mae’n ymddangos bod problemau cyflogaeth yn codi yn fwy aml (ynghyd â’r sectorau manwerthu a chartrefi gofal). Mae telerau ac amodau cyflogaeth yn y sector gwestai a bwytai yn cymharu’n anffafriol â sectorau eraill.
- Gellid datblygu cymorth i fusnesau ynglyn â datblygu’r gweithlu ochr yn ochr â hyfforddiant sgiliau i weithwyr sy’n cydnabod gwahanol anghenion unigol; a chyfleoedd datblygu gyrfa eglur yn y diwydiant yn arwain at swyddogaethau rheoli.

Pwynt Gwerthu Unigol

- Mae iaith a diwylliant Cymru yn rhan o’r ‘profiad’ a gaiff yr ymwelydd. Dylai gweithrediadau sicrhau bod gwasanaethau i gwsmeriaid ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys deunyddiau marchnata, gwefannau a deunydd hyrwyddo a bod y Gymraeg yn rhan amlwg o brofiad ymwelwyr yng Nghymru.

modd:

- Rhaid cynnal ymarfer sgrinio bioamrywiaeth gan ddefnyddio offeryn Meincnodi Bioamrywiaeth yr Ymddiriedolaeth Natur os yw'r 'gweithrediad' yn cynnwys adeiladu safle newydd neu adnewyddu safle. Rhaid cynnal Arolwg Cynefinoedd Cam 1 os yw'r safle yn debygol o gefnogi cynefinoedd neu rywogaethau gwerthfawr (ee y rhai hynny a restrir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad neu Reoliadau Cynefinoedd y DU 1994).

Treftadaeth Ddiwylliannol:**Cynllunio adeiladau'n addas er mwyn cynnal treftadaeth ddiwylliannol y tir.**

- Datblygu a hybu cadwyni cyflenwi cynaliadwy effeithiol. Dylai buddiolwyr geisio datblygu cadwyni cyflenwi lleol. Bydd dewis cyflenwyr yn ôl eu perfformiad amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a'u gwasanaethau o fudd i'r amgylchedd. Dylid defnyddio cynhyrchion lleol pan fo hynny'n bosibl.

Datblygu a hybu camau arbed ynni a defnyddio ynni yn effeithlon:

- Gellir cyflawni hyn trwy wneud ymchwil i ddulliau neu dechnolegau gwell ar gyfer arbed ynni a defnyddio ynni yn effeithlon; hybu dulliau a thechnolegau gwell ar gyfer arbed

ynni a defnyddio ynni yn effeithlon. Gall camau o'r fath gynnwys deunyddiau insiwleiddio gwell, goleuadau sy'n arbed ynni a thechnolegau gwresogi fel switsys sy'n troi goleuadau i ffwrdd ar ôl cyfnod penodol o amser ac unedau gwres a phŵer sydd wedi eu cyfuno.

Mae arbed dŵr hefyd yn ystyriaeth bwysig i weithrediadau.

- Dylai camau arbed dŵr fel tapiau sy'n atal llif y dŵr ar ôl cyfnod penodol o amser ac offer storio dŵr gael eu gosod pan fo hynny'n briodol. Dylid arbed dŵr hefyd trwy gynlluniau storio ac ailgylchu dŵr. Gall Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a gwella dulliau dylunio trefol trwy gydbwyso'r gwahanol faterion sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau. Mae dulliau o reoli dŵr wyneb sy'n ystyried swm dŵr (llifogydd), ansawdd dŵr (llygredd) a materion amwynder yn ystyriaethau pwysig mewn gweithrediadau adeiladu.

Er mwyn elwa i'r eithaf ar effeithlonrwydd adnoddau dylai 'Gweithrediadau' fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a byddai hyn yn esgor ar arbedion ariannol sylweddol.

- Byddai mabwysiadu, gweithredu neu wella strategaeth gynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan bwysig o gyflawni'r amcan hwn. Dylid datblygu a mabwysiadu dulliau sy'n gwneud cyn lleied â phosibl o ddefnydd diangen o ddeunyddiau crai. Dylai'r holl 'weithrediadau' adeiladu sydd

dros £300,000 mewn gwerth gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff ar gyfer y safle.

Gellid datblygu Cod Eco gan y buddiolwr i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol.

- Caiff y Cod Eco ei arddangos fel poster, ac fel arfer mae wedi ei leoli mewn man canolog fel ffreutur y staff neu yn y dderbynfa. Mae'r poster yn rhoi awgrymiadau ymarferol i atgoffa'r staff i arbed ynni, peidio â gwastraffu dŵr a'u hannog i wella'r dulliau o reoli gwastraff. Darperir templed enghreifftiol yn atodiad y canllawiau hyn ac mae'n dangos amrywiaeth o gamau y dylai'r cod eco eu hybu. Dylai'r camau gael eu llunio gan y sefydliad a byddai'n benodol ar gyfer gweithgarwch y 'gweithrediadau'. Nodir rhai awgrymiadau cyffredinol ar y templed.

Twristiaeth:

- **Annog amrywiaeth pan fo hynny'n bosibl.**
- **Hybu eco-dwristiaeth:**
 - Sicrhau effaith isel ar yr amgylchedd naturiol
 - Darparu addysg i rymuso cymunedau a meithrin ecosystemau bregus a gwahaniaethau diwylliannol.
 - Annog mwy o werthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol.

Camau Gweithredu Generig ar draws pob Blaenoriaeth

Mae gan y camau gweithredu hyn y potensial i fod yn berthnasol ar draws prosiectau waeth pa weithgaredd y maent yn ymgymryd ag ef

Camau gweithredu sy'n cefnogi Datblygu Cynaliadwy

Datblygu a hyrwyddo technolegau a phrosesau arloesol i leihau achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

- Gallai atebion arloesol i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd⁸ fod ar ffurf gwell strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol, technolegau newydd a allai gynyddu cadwraeth ynni*, technolegau a allai leihau allyriadau neu dechnolegau a allai gynnig ffynonellau o ynni adnewyddadwy glân newydd neu well*.

Datblygu a hyrwyddo cadwyni cyflenwi cynaliadwy lleol.

- Dylai buddiolwyr geisio datblygu cadwyni cyflenwi lleol. Bydd dethol cyflenwyr yn ôl eu perfformiad amgylcheddol ac ansawdd eu nwyddau a'u gwasanaethau o fudd i'r amgylchedd. Bydd y ddolen isod yn rhoi rhagor o gymorth i chi ar gaffael cynaliadwy, ac mae'n cynnig offerynnau, adnoddau a sawl astudiaeth achos.

Dim datblygu amhriodol mewn ardaloedd gwarchod

Camau gweithredu sy'n cefnogi Cyfle Cyfartal a Rheoli Cyffredinol

Recriwtio

- Gofalwch fod yr holl gyfleoedd recriwtio a swyddi ar gael i bob unigolyn, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Dylai sefydliadau geisio ehangu amrywiaeth eu gweithlu pan fo hynny'n bosibl, a sicrhau y cefnogir recriwtio allanol os oes modd. Fodd bynnag, pan fo gan sefydliadau bolisiau y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng y rheolwyr ac undebau llafur, dylid dilyn y polisiau hyn. Gellir hysbysebu swyddi'n fewnol yn unol â'r telerau a nodir yn y polisi a gytunwyd. Pan ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd modd llenwi'r swydd yn fewnol, dylid hefyd eu hysbysebu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a fyddai'n cynnwys canolfannau gwaith, asiantaethau, y wasg genedlaethol,

⁸ Llywodraeth Cymru : Newid Hinsawdd <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/?lang=cy>

<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i unrhyw 'weithrediad' sydd â'r potensial iddifrodi safle o bwysigrwydd rhyngwladol (fel y diffinnir gan Reoliadau Cynefinoedd y DU 1994) gynnal 'Asesiad Priodol'. • Dylid cyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol : Cadwraeth Natur a Chynllunio ac, yn benodol, Atodlen , sy'n disgrifio'r broses asesu yn fwy manwl. Mae'n rhaid i'r asesiad hwn fod ar wahân i unrhyw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol* sy'n cael ei gynnal. Ceir rhagor o wybodaeth am Aseidiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn nhroednodyn 	<p>lleol ac arbenigol, sefydliadau trydydd sector a gwefannau eraill pan fo hynny'n briodol ac yn fforddiadwy.</p> <p>Iaith / Hygyrchedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofalwch fod yr holl ddeunyddiau, gwefannau a chyhoeddusrwydd sydd ar gyfer y cyhoedd ar gael mewn fformatau⁹ hygyrch a dwyieithog: <ul style="list-style-type: none"> - Cymraeg/Saesneg neu; - yn yr iaith gymunedol briodol os ydych yn targedu grwpiau obobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi'u tangynrychioli - fersiynau print bras / sain / Braille o ddeunyddiau hyfforddiant / addysgol / marchnata. <p>Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddiwch ganllaw Comisiynydd y Gymraeg ar 'Gwneud Cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg'¹⁰ yn eich sefydliad eich hun ac â'ch partneriaid darparu a chydymffurfiwch â'ch Cynllun Iaith Gymraeg eich hun a/neu unrhyw safonau iaith y gallech fod yn ddarostyngedig iddynt¹¹
---	---

⁹ Y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl 'Guide to Accessible Publishing' <http://odi.dwp.gov.uk/inclusive-communications/channels/publishing.php>

¹⁰ Gwneud Cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg <http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Contractau%20a%20Grantiau%20CYM.pdf>

¹¹ Gwefan Comisiynydd y Gymraeg [http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/Gyfraith/Mesur%20y%20Gymraeg%20\(Cymru\)%202011/Pages/Safonau-\(gwybodaeth-gyffredinol\).aspx](http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/Gyfraith/Mesur%20y%20Gymraeg%20(Cymru)%202011/Pages/Safonau-(gwybodaeth-gyffredinol).aspx)

.Datblygu safleoedd tir llwyd o werth ecolegol isel pan fo hynny'n bosibl:

- Os yw'r 'gweithrediad' yn golygu creu cyfleusterau neu safle ymchwil newydd, dylai canolbwyntio ar ail-hawlio ac adfywio safleoedd tir llwyd diffaith nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol sydd o werth ecolegol isel neu ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes fod yn flaenoriaeth, yn hytrach na datblygu tir maes glas neu safleoedd tir llwyd o werth ecolegol sylweddol. Mae datblygiad tir llwyd sydd wedi'i gynllunio'n dda yn fwy tebygol o integreiddio â'r ardal gyfagos a'i hategu. Bydd hefyd yn gallu manteisio ar wasanaethau cymunedol sy'n bodoli eisoes fel trafnidiaeth gyhoeddus. Byddai WEFO yn gofyn i unrhyw 'weithrediad' sy'n datblygu safle maes glas* (neu safle tri llwyd o werth ecolegol sylweddol) ddarparu tystiolaeth nad oedd safle tir llwyd addas arall o werth ecolegol isel ar gael.

- Cynlluniwch sut y gallwch gynnig eich gwasanaethau i gyfranogwyr (ee cyrsiau, gweithgareddau, mentora ac ati) yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os na all eich sefydliad gynnig darpariaeth ar gyfer cyfranogwyr Cymraeg eu hiaith, ystyriwch gynnwys partneriaid darparu eraill sy'n gallu gwneud hynny
- Gofalwch y bydd contractwyr a phartneriaid darparu yn gallu

Potensial i gynnwys seilwaith gwyrdd neu las ar raddfa fach yn nyluniad y 'gweithrediad'.

- Gall seilwaith gwyrdd neu las gymryd amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft: gall seilwaith gwyrdd gynnwys toeon a waliau gwyrdd, gerddi, parciau, tirweddau cynhyrchiol, coridorau gwyrdd, dolydd blodau gwyllt trefol ar raddfa fach, toeon a waliau gwyrdd a gwestai gwenyn/pryfed i dir parc wedi'i gynllunio ar raddfa fwy, manau wedi'u neilltuo ar gyfer blodau gwyllt a chynlluniau "tyfu eich hun" cymunedol.
- Gallai seilwaith glas gynnwys bio-bantiau wedi'u cynllunio, pafin mân-dyllog a gerddi glaw, yn ogystal â systemau draenio trefol cynaliadwy (SUDs).

Camau gweithredu i hybu bioamrywiaeth ar y safle.

- Mae'r rhain yn cynnwys: diogelu unrhyw nodweddion naturiol a bywyd gwyllt y safle, fel coed, perthi neu byllau aeddfed presennol. Gallai tirlunio pellach ddefnyddio rhywogaethau planhigion sy'n frodorol ac yn nodweddiadol o'r ardal. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd ar y

ymdrin â chi drwy gyfrwng y Gymraeg, os byddant yn dymuno gwneud hynny.

- Eglurwch yr hyn sy'n arfer da ac nad yw'n arfer da ar gyfer hygyrchedd o ran cyhoeddiadau, deunyddiau a gwefannau, trwy gyfeirio at sefydliadau fel 'cod ymarfer' hygyrchedd y we RNIB Cymru¹¹, y Sefydliad Safonau Prydeinig¹²

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yw helpu awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyfrannu at gymdeithas decach yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i bawb.
- Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gweithio tuag at nodau o'r fath a lleihau anghydraddoldeb posibl yw cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n helpu i leihau anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau andwyol posibl.¹³
- Gall sefydliadau nad ydynt yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus¹⁴ hefyd gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, fel sy'n briodol, er mwyn dangos arfer da

¹¹ RNIB Cymru <http://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1>

¹² Cod ymarfer hygyrchedd y we y Sefydliad Safonau Prydeinig <http://shop.bsigroup.com/en/ProductDetail/?pid=00000000030180388>

¹³ Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Llywodraeth Cymru <http://intranet/Welsh/PolicyDelivery/AppraisingPolicy/Social/Pages/Equality.aspx>

¹⁴ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol <https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales>

safle, yn enwedig ar gyfer rhywogaethau sensitif sydd efallai wedi cael eu dadleoli o ganlyniad i'r datblygiad.

Cynllunio ar gyfer integreiddio'r datblygiad gymaint â phosibl yn y gymuned gyfagos bresennol:

- Dylid seilio cynllun y safle ar werthusiad cadarn o'r ardal gyfagos, gan alluogi cymaint â phosibl o integreiddiad i'r datblygiad yn y gymuned. Gallai'r safle gynnig cysylltiadau da ag ardaloedd cyfagos.

Integreiddio ffynonellau ynni adnewyddadwy.

- Efallai y bydd modd gosod technoleg ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel gwresogi dŵr gydag ynni'r haul*, paneli solar ffotofoltaig (PV)*, gwresogi biomas* neu dyrbinau gwynt*.

Datblygu technolegau arloesol i hybu trafndiaeth gynaliadwy.

- Byddai ymchwilio i dechnolegau newydd a'u defnyddio i hybu trafndiaeth fwy gynaliadwy (fel celloedd tanwydd hydrogen* neu systemau bionwy/biodiesel*), yn cynnig manteision amgylcheddol yn ogystal â manteision economaidd yn y dyfodol a allai fod yn sylweddol.

Mabwysiadu Cynllun Teithio*.

- Byddai'r cynllun hwn yn cynnwys mentrau fel cynlluniau rhannu car, yn cynnig gwybodaeth am opsiynau trafndiaeth gyhoeddus, yn darparu

cyfleusterau ar gyfer
parcio beiciau'n ddiogel a chyfleusterau
newid/cawodydd i annog beicio a cherdded

Ymchwilio i systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio.

- Dylai 'gweithrediadau' ymchwilio systemau TGCh arloesol i leihau'r angen i deithio lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Sicrhau cymaint o effeithlonrwydd â phosibl o ran adnoddau.

- Dylai 'gweithrediadau' sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a fyddai'n cynnig arbedion ariannol sylweddol. Byddai mabwysiadu, gweithredu neu wella strategaeth cynaliadwyedd amgylcheddol yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran bodloni'r amcan hwn. Dylid datblygu a mabwysiadu dulliau sy'n sicrhau bod y defnydd diangen o ddeunyddiau crai cyn lleied â phosibl. Dylai pob 'gweithrediad' adeiladu gwerth dros £300,000 lunio cynllun rheoli gwastraff safle.

Cod Eco

Cyfes o ymddygiadau sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a gwybodaeth amdano ymhlith staff a defnyddwyr safle a/neu sefydliad yw'r Cod Eco. Mae'r Cod Eco (a arddangosir gan ddefnyddio posteri fel rheol) yn cynnig cyngor ymarferol a nodiadau atgoffa ar gyfer arbed ynni, dŵr ac adnoddau. Mae'r templed enghreifftiol canlynol yn dangos y mathau o gamau gweithredu y dylai'r cod eco eu hybu. Dylai'r camau gweithredu gael eu llunio gan y prif fuddiolwr a byddent yn benodol i weithgareddau'r prif fuddiolwr. Fodd bynnag, mae rhai camau gweithredu a awgrymir wedi eu cynnwys yn y templed.

	Atal, Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu
Cod Eco	Byddwn yn atal, yn lleihau, yn atgyweirio, yn ailddefnyddio ac yn ailgylchu i sicrhau cyn lleied â phosibl o wastraff os oes modd.
Camau Gweithredu	<ul style="list-style-type: none">• Prynu eitemau â lefelau isel o ddeunydd pacio neu ddim deunydd pacio o gwbl;• Ailgylchu'r holl ddeunyddiau a ddefnyddir, gan gynnwys papur, metelau, gwydr, plastig a bwyd;• Compostio eitemau darfodus priodol.

	Trafnidiaeth
Cod Eco	Byddwn yn ceisio annog ffyrdd mwy ystyriol o'r amgylchedd i chi deithio pan fyddwch yn dod i'n gweld ni! Yn yr un modd, bydd busnes y sefydliad yn cael ei gyflawni drwy'r dull teithio mwyaf amgylcheddol gynaliadwy sydd ar gael.
Camau Gweithredu	<ul style="list-style-type: none">• Lleihau'r angen i deithio pan fod hynny'n bosibl trwy ddefnyddio TGCh;• Defnyddio, hyrwyddo a gwella trafndiaeth gyhoeddus pan fo hynny'n bosibl;

	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio cynadledda fideo a thelegynadledda; • Rhannu cerbyd pan fo hynny'n bosibl (gweler yr enghraifft isod). <p>www.sewtacarshare.com (os ydych yn teithio o'r de-ddwyrain)</p> <p>www.swwitch2share.com (os ydych yn teithio o'r de-orllewin)</p>
--	---

	<h1>Prynu</h1>
Cod Eco	Byddwn yn prynu cynhyrchion a deunyddiau nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd pan fyddant yn cael eu gwneud neu eu defnyddio.
Camau Gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> • Prynu cynhyrchion wedi'u haildefnyddio/eu hailgylchu pan fo hynny'n bosibl; • Ceisio cyrraedd Lefel 3 y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy yn gyffredinol a Lefel 5 mewn o leiaf un maes.

	<h1>Dŵr</h1>
Cod Eco	Byddwn yn arbed dŵr pan fo hynny'n bosibl.
Camau Gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> • Diffodd tapiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio; • Cyflwyno mesurau cadw dŵr fel tapiau â chyfyngiad amser, systemau ailgylchu 'dŵr llwyd', toiledau tynnu dŵr deuol, awryrddion dŵr ar bob tap sinc a dyfeisiau arbed dŵr yn nhanciau dŵr toiledau.

	<h1>Ynni</h1>
Cod Eco	Ein nod yw lleihau'r defnydd o ynni a'ch addysgu am sut i arbed ynni!
Camau Gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> • Diffodd yr holl wres/goleuadau pan nad oes eu hangen; • Defnyddio rheolyddion gwres i ymateb yn gyflym i i wahanol anghenion gwresogi beunyddiol; • Gosod insiwleiddio effeithiol, cau'r holl ddrysau/fffenestri yn y gaeaf; • Tanysgrifio â chwmni ynni gwyrdd fel Good Energy, sy'n gallu cael gafael ar 100% o drydan gwyrdd; • Gosod cyfleusterau ynni adnewyddadwy pan yw hynny'n bosibl, fel gwresogi dŵr gydag ynni'r haul.

	<h1>Bioamrywiaeth</h1>
Cod Eco	Byddwn yn ceisio cynyddu bioamrywiaeth y safle a'i gyffiniau.
Camau Gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori â grwpiau bywyd gwyllt lleol ar sut i annog bioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn effeithiol yn eich ardal.

Codi Ymwybyddiaeth

Cod Eco	Byddwn yn hysbysu ein holl ymwelwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol am sut yr ydym yn gofalu am ein hamgylchedd yn y gobaith y byddant hwythau'n gwneud yr un fath yn eu cartrefi! Er enghraifft: Hysbysiadau a nodiadau atgoffa o gwmpas y ganolfan, hyrwyddo ein hunain i gyfryngau lleol a darparu gwybodaeth ar ein gwefan
Camau Gweithredu	<ul style="list-style-type: none">• Gosod hysbysiadau a phosteri amlwg o gwmpas y safle;• Darparu gwybodaeth ar y wefan ac mewn llenyddiaeth.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cofnod Diweddaru'r Canllawiau ar Themâu Trawsbynciol (CC ar gyfer fersiwn



Newidiadau a wnaed Fersiwn Ionawr 2018

Thema	Rhif Tudalen	Newid	Rheswm
Generig-drwyddi draw		Newid fersiwn a dyddiad	
Datblygu Cynaliadwy			
	5	Newid yn y testun i gyfeirio at strategaethau datblygu cynaliadwy yn hytrach na strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol	Yn unol â'r amcanion ariannu presennol.
	6/10/11	Dileu'r cyfeiriad at hyrwyddwr Datblygu Cynaliadwy	Adlewyrchu'r ffaith fod y llythyr cynnig yn cynnwys cyfeiriad at Hyrwyddwr Trawsbynciol generig
	9	Cyfeiriad at dudalen gwe wedi newid	Newid i ddolen URL
Cyfle Cyfartal a	1	Cynnwys y rhif rheoli	Nid oedd un o'r

Phrif-ffrydio Rhywedd		fersiynau	blaen
	18	Dileu'r cyfeiriad at ddogfen 'Grantiau, benthyciadau a nawdd' Comisiynydd y Gymraeg	Wedi dyddio. Bellach wedi cynnwys y canllawiau newydd 'Gwneud Cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018.
	18	Diweddarau'r we-ddolen at Safonau'r Gymraeg	Hen we-ddolen